Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

Deiseb P-06-1197 Gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i bob plentyn rhwng 11 a 35 oed sy'n cynrychioli ei ysgol neu sir mewn chwaraeon

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/837-9

Rhif y ddeiseb: P-06-1197

Teitl y ddeiseb: Gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i bob plentyn rhwng 11 a 35 oed sy'n cynrychioli ei ysgol neu sir mewn chwaraeon

Geiriad y ddeiseb: Mae 12 o bobl o dan 35 oed yn marw'n sydyn bob wythnos yn y DU o gyflwr ar y galon a fyddai'n dod i'r amlwg wrth sgrinio'r galon. Nid yw 80 y cant o'r marwolaethau hyn yn dangos unrhyw symptomau blaenorol. Mae cyfradd oroesi o 7 y cant ar gyfer ataliad y galon. Ers gwneud sgrinio'r galon yn orfodol yn yr Eidal i bob chwaraewr mewn timau chwaraeon, mae marwolaeth sydyn y galon wedi gostwng 89 y cant.

Bu farw Owen Morris, 13, yn sydyn yn ystod hyfforddiant rygbi yng Nghaerdydd o gyflwr ar ei galon heb ei ddiagnosio, a allai fod wedi dod i'r amlwg wrth sgrinio.

Wrth sgrinio calonnau, mae un o bob 300 sesiwn yn dod o hyd i broblem a allai fygwth bywyd yr unigolyn, ac y gellir ei reoli neu ei drin wedyn. Stori Owen Morris:

https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/friends-family-welsh-schoolboy-who-7361218

Cafodd Chris Morse, 33, ei anfon i'r ysbyty ar unwaith ar ôl bod mewn gwasanaeth sgrinio'r galon: "Bydd yn cymryd ychydig funudau ac yn ddi-os

gallai arbed eich bywyd, fel yn fy achos i." Dyma stori Chris: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50635370

Bu farw Ben McDonald, 25, ar ôl cael ataliad y galon yn Hanner Marathon Caerdydd. Mae mam Ben, Ruth McDonald, eisiau i bobl yng Nghymru gael mynediad at wasanaeth sgrinio'r galon am ddim i helpu i atal achosion o farwolaeth sydyn y galon.

Yma yn Calon Heart Screening Wales mae'n rhaid i ni godi ffi am wasanaeth sgrinio'r galon. Fodd bynnag, rydym am gael cyllid gan y llywodraeth i allu cynnig gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i'r rheini rhwng 11 a 35 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar gyfer eu hysgol, eu sir neu eu gwlad. Cewch ragor o wybodaeth am ein helusen yma: www.heartscreening.wales

1. Cefndir

1.1. Polisi sgrinio calonnau yn y DU

Ar hyn o bryd, **nid yw** Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell sgrinio ar gyfer cyflyrau ar y galon sy'n gysylltiedig â marwolaeth sydyn y galon mewn pobl ifanc. Mae marwolaeth sydyn y galon yn digwydd pan fo calon person ifanc iach yn stopio curo yn sydyn, heb fawr o rybudd, os o gwbl. Mewn pobl o dan 39 oed, yn aml, yr achos yw bod cyhyr y galon wedi tewhau neu broblem drydanol gyda'r galon. Mewn pobl hŷn, mae'n fwy tebygol mai'r achos yw bod y pibellau gwaed sy'n cyflenwi'r galon wedi culhau.

Ym mis Mehefin 2015, gwnaeth Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU **ystyried y dystiolaeth** ar gyfer sawl ffordd arfaethedig o sgrinio pobl rhwng 12 a 39 oed, gan gynnwys electrocardiograffeg (ECG), hanes personol neu deuluol, archwiliad corfforol, a chyfuniad o'r dulliau hyn. Nid oedd yn argymell sgrinio ar gyfer y cyflwr hwn.

Yn 2019, awgrymodd adolygiad wedi'i ddiweddaru o'r dystiolaeth **nad oedd y profion a oedd ar gael yn ddigon manwl gywir** i allu nodi cyflyrau a allai arwain at farwolaeth sydyn y galon heb nodi ar gam llawer o bobl â chalonnau iach.

Yn ogystal â phryderon am y prawf, roedd **ansicrwydd** ynghylch y budd cyffredinol mewn nodi pwy sydd mewn perygl, oherwydd ar hyn o bryd mae'n ymddangos

bod y niwed yn drech na'r buddion. Nid oes **cytundeb ar y driniaeth** ar gyfer rhywun y nodwyd ei fod mewn perygl.

Amcangyfrifir y bydd yr **adolygiad nesaf** yn cael ei gwblhau yn 2022/23.

Sgrinio'r galon

Mae archwiliadau sgrinio yn **brofion a gynhelir er mwyn dod o hyd i glefyd cyn i'w symptomau ddechrau**. Nod sgrinio yw canfod clefyd mor gynnar â phosibl pan fydd yn haws ei drin. Mae sgrinio'r galon yn brawf diagnostig a ddefnyddir i ganfod a gwerthuso clefyd y galon. Ym mhob prawf sgrinio, mae potensial o beri niwed gan fod **risg y bydd canlyniad ffug**.

Nid yw GIG Cymru yn sgrinio calonnau fel mater o drefn er mwyn canfod cyflwr isorweddol ar y galon. Mae rhai elusennau a chronfeydd coffa, megis Calon Heart, a Chronfa Ben McDonald er sgrinio'r galon, yn cynnig sesiynau sgrinio'r galon i bobl rhwng 14 a 35 oed.

I gael diagnosis o annormaleddau'r galon, mae'r sgrinio'n defnyddio **prawf ECG (electrocardiogram),** sy'n cofnodi gweithgarwch trydanol y galon. Os oes angen delwedd fanylach, sgan uwchsain o'r galon - **ecocardiogram** - sydd ei angen. Defnyddir y sgan i gael mesuriadau sy'n ganllaw ar gyfer pa mor trwchus yw cyhyr y galon a maint siambrau'r galon.

1.2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Pwyllgor Sganio Cenedlaethol y DU yn cynghori Gweinidogion ym mhedair gwlad y DU ar bob agwedd ar sgrinio'r boblogaeth. Nid yw'n argymell sgrinio i atal marwolaeth sydyn y galon, felly ni chynhelir sgrinio o'r fath yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na ddylid cynnig rhaglenni sgrinio poblogaeth **oni bai bod tystiolaeth glir y bydd sgrinio yn gwneud mwy o dda nag o ddrwg**. Yn ei llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Senedd, dywed Eluned Morgan AS:

> Population screening programmes generally can save lives through early risk identification but can also do harm by identifying risk factors that would never otherwise develop into a serious condition or complication. Screening programmes may have false negative results, so do not guarantee protection. Additionally, receiving a low risk result does not prevent the person from developing the condition at a later date.

Ychwanegodd y Gweinidog Iechyd y **bydd sgrinio'r galon ar gyfer poblogaeth asymptomatig gyfan yn cael ei ystyried yn llawn os ceir profion mwy cywir**. Yn y cyfamser, mae hi'n cynghori teuluoedd unigolion sydd wedi dioddef marwolaeth sydyn y galon i ofyn am asesiad clinigol unigol i asesu'r risg. Mae hi hefyd yn awgrymu y gallai Calon Heart Screening Wales ystyried gofyn i Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU adolygu'r dystiolaeth dros gyflwyno rhaglen sgrinio wedi'i thargedu ar gyfer marwolaeth sydyn y galon i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.